# Ordinhad 4

# Y Cyngor: Aelod a Enwebir gan y Staff Academaidd

| | |
|---|---|
| **Corff Cymeradwyo:** | Y Cyngor |
| **Dyddiad Cymeradwyo:** | 25 Tachwedd 2024 |
| **Perchennog y Polisi:** | Ysgrifennydd y Brifysgol |
| **Swyddog Polisi:** | Swyddog Contractau |
| **Statws y Polisi:** | Diwygiwyd |
| **Fersiwn:** | 1.2 |
| **Dyddiad adolygu:** | Hydref 2024 |
| **Dyddiad Adolygu Nesaf:** | Hydref 2026 |

# Ordinhad 4
# Y Cyngor: Aelod a Enwebir gan y Staff Academaidd

1. Yn unol â pharagraff 9.3 y Siarter, penodir yr aelod a enwebir gan y staff academaidd i'r Cyngor fel a ganlyn.

2. Cyfnod arferol cynrychiolydd y staff academaidd mewn swydd ar y Cyngor fydd pedair blynedd. Mae'r unigolyn yn gymwys i'w ailbenodi fel arfer am un cyfnod arall o hyd at bedair blynedd ac yna bydd yn anghymwys i'w ailethol eto yn yr un categori aelodaeth nes bydd cyfnod o bedair blynedd wedi mynd heibio.

3. **Trefn Benodi**

   a. Pan fo sedd yng nghynrychiolaeth y staff academaidd ar fin dod yn wag, bydd Ysgrifennydd y Brifysgol (neu ei enwebai) yn hysbysu holl aelodau'r staff academaidd sy'n gyflogedig ar y pryd o hynny ac yn galw am enwebiadau.

   b. Bydd cynigydd ac eilydd yn llofnodi pob enwebiad a anfonir at Ysgrifennydd y Brifysgol (neu ei enwebai), a chyda phob enwebiad, anfonir datganiad gan yr ymgeisydd neu ar ei ran ef/ei rhan hi, ynglŷn â pharodrwydd i wasanaethu.

   c. Os ceir mwy nag un enwebiad, bydd Ysgrifennydd y Brifysgol (neu ei enwebai) yn trefnu cynnal pleidlais o blith pawb a wahoddwyd i gyflwyno enwebiadau, a bydd yr ymgeisydd sy'n derbyn y nifer uchaf o bleidleisiau yn llenwi'r sedd wag.

   d. Os cynhelir y bleidlais yn bennaf trwy ddulliau electronig, bydd Ysgrifennydd y Brifysgol (neu ei enwebai) yn trefnu bod aelodau o'r staff academaidd yn gofyn am bapur pleidleisio.

   e. Bydd Ysgrifennydd y Brifysgol (neu ei enwebai) yn penodi dau archwiliwr i etholiad trwy bleidlais, a bydd o leiaf un ohonynt naill ai'n aelod annibynnol o'r Cyngor neu'n aelod staff anacademaidd. Gwahoddir un cynrychiolydd o bob un o'r undebau llafur cydnabyddedig i weithredu fel arsylwyr yn ystod cyfrif y papurau pleidleisio a gwirio unrhyw bleidleisiau a fwriwyd yn electronig.

   f. Ni fydd unrhyw aelod o'r Bwrdd Gweithredol, fel y nodir yn Ordinhad 16, yn gymwys i'w enwebu.

4. Bydd Ysgrifennydd y Brifysgol yn cyhoeddi canlyniadau'r etholiad.

5. Ar wahân i'r darpariaethau uchod, pennir dull yr etholiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol.

6. Os daw unrhyw sedd yn wag dan amgylchiadau heblaw'r drefn reolaidd, llenwir hi trwy ddull cyffelyb i'r uchod. Bydd unrhyw un a benodir i lenwi sedd a ddaw'n wag dros dro yn gwasanaethu am yr hyn sy'n weddill o'r cyfnod.